
14–16 oed

# Ysgrifennu fformiwlâu ar gyfer cyfansoddion ïonig




ROYAL SOCIETY OF CHEMISTRY

Education
Inspiring your teaching and learning

https://rsc.li/3PrL54w

# Nitrid neu nitrad?

Mae'r lluniau'n dangos magnesiwm nitrid (llun uchaf) a magnesiwm nitrad (llun isaf).

1. Beth yw'r gwahaniaethau rhwng magnesiwm nitrid a magnesiwm nitrad?
2. Sut ydych chi'n gwybod pa elfennau sydd ynddynt?
3. Rhowch enghreifftiau eraill o fformiwlâu sy'n gorffen gydag '-id' vs '-ad'.



Ffynhonnell: © Trunnano



Ffynhonnell: © Shutterstock / AB-7272

Cyflwyniad

# Nitrid neu nitrad?

Mae magnesiwm nitrid, $Mg_3N_2$, yn gyfansoddyn ïonig sy'n cynnwys ïonau magnesiwm ac **ïonau nitrid**. Mae'n bowdr melynwyrdd sy'n cael ei ddefnyddio weithiau fel catalydd.



Ffynhonnell: © Trunnano

Mae magnesiwm nitrad, $Mg(NO_3)_2$, yn gyfansoddyn ïonig sy'n cynnwys ïonau magnesiwm ac **ïonau nitrad**. Mae'n bowdr gwyn sy'n cael ei ddefnyddio mewn gwrteithiau ac fel cyfrwng dadhydradu.



Ffynhonnell: © Shutterstock / AB-7272

# Nitrid neu nitrad?

Beth sy'n wahanol am y ddwy fformiwla ïonig, $\mathbf{Mg_3N_2}$ a $\mathbf{Mg(NO_3)_2}$?

- Mae'r ddwy yn cynnwys ïonau $Mg^{2+}$, ond beth sy'n wahanol am eu ïonau negatif?
- Sut mae hyn yn effeithio ar fformiwla ïonig gyffredinol y cyfansoddyn?



Ffynhonnell: © Trunnano



Ffynhonnell: © Shutterstock / AB-7272

Cyflwyniad

# Amcanion dysgu

Erbyn diwedd y wers heddiw, byddwch yn gallu:

- Cofio enwau a fformiwlâu ïonau positif a negatif cyffredin.
- Ysgrifennu fformiwlâu cyfansoddion ïonig.

# Gweithgaredd 1

Ar eich taflen waith, mae rhai fformiwlâu ïonig pwysig y byddwch chi eu hangen.

- Llenwch y tabl i ddangos y fformiwlâu cywir ac enwau pob ïon.
- Ar ôl i chi orffen, codwch eich llaw er mwyn cael gwirio eich gwaith.
- Byddwch wedyn yn ‘grŵp arbenigol’ ac yn gwirio fformiwlâu’r dysgwyr eraill

# Atebion

| Fformiwla | Enw'r ïon |
|---|---|
| $Na^{+}$ | Ïon sodiwm |
| $K^{+}$ | Ïon potasiwm |
| $Ag^{+}$ | Ïon arian(I) |
| $NH_4^{+}$ | Ïon amoniwm |
| $Ca^{2+}$ | Ïon calsiwm |
| $Mg^{2+}$ | Ïon magnesiwm |
| $Pb^{2+}$ | Ïon plwm(II) |
| $Zn^{2+}$ | Ïon sinc |
| $Cu^{2+}$ | Ïon copr(II) |
| $Fe^{2+}$ | Ïon haearn(II) |
| $Fe^{3+}$ | Ïon haearn(III) |
| $Al^{3+}$ | Ïon alwminiwm |

| Fformiwla | Enw'r ïon |
|---|---|
| $Cl^{-}$ | Ïon clorid |
| $Br^{-}$ | Ïon bromid |
| $I^{-}$ | Ïon ïodid |
| $NO_3^{-}$ | Ïon nitrad |
| $N^{3-}$ | Ïon nitrid |
| $OH^{-}$ | Ïon hydrocsid |
| $CO_3^{2-}$ | Ïon carbonad |
| $S^{2-}$ | Ïon sylffid |
| $SO_4^{2-}$ | Ïon sylffad |

# Cyfuno fformiwlâu

Wrth gyfuno ïonau i wneud fformiwlâu ïonig, rhaid i'r gwefrau positif a negatif gydbwyso. Y rheswm am hyn yw bod cyfansoddion ïonig yn **niwtral** yn gyffredinol.

Ar eich bwrdd gwyn bach, ysgrifennwch y fformiwlâu canlynol:

- Ïon sodiwm
- Ïon bromid
- Fformiwla sodiwm bromid

# Cyfuno fformiwlâu

Wrth gyfuno ïonau i wneud fformiwlâu ïonig, rhaid i'r gwefrau positif a negatif gydbwyso. Y rheswm am hyn yw bod cyfansoddion ïonig yn **niwtral** yn gyffredinol.

*e.e. sodiwm bromid*

$Na^+$ $Br^-$

Y fformiwla yw NaBr

# Cyfuno fformiwlâu

Wrth gyfuno ïonau i wneud fformiwlâu ïonig, rhaid i'r gwefrau positif a negatif gydbwyso. Y rheswm am hyn yw bod cyfansoddion ïonig yn **niwtral** yn gyffredinol.

Ar eich bwrdd gwyn bach, ysgrifennwch y fformiwlâu canlynol:

- Ïon sodiwm
- Ïon carbonad
- Fformiwla sodiwm carbonad

# Cyfuno fformiwlâu

Wrth gyfuno ïonau i wneud fformiwlâu ïonig, rhaid i'r gwefrau positif a negatif gydbwyso. Y rheswm am hyn yw bod cyfansoddion ïonig yn **niwtral** yn gyffredinol.

*e.g. sodiwm carbonad*




Y fformiwla yw $Na_2CO_3$

# Cyfuno fformiwlâu

Wrth gyfuno ïonau i wneud fformiwlâu ïonig, rhaid i'r gwefrau positif a negatif gydbwyso. Y rheswm am hyn yw bod cyfansoddion ïonig yn **niwtral** yn gyffredinol.

Ar eich bwrdd gwyn bach, ysgrifennwch y fformiwlâu canlynol:

- Ïon magnesiwm
- Ïon hydrocsid
- Fformiwla magnesiwm hydrocsid

# Cyfuno fformiwlâu



Wrth gyfuno ïonau i wneud fformiwlâu ïonig, rhaid i'r gwefrau positif a negatif gydbwyso. Y rheswm am hyn yw bod cyfansoddion ïonig yn **niwtral** yn gyffredinol.

*e.e. magnesiwm hydrocsid*




Y fformiwla yw $Mg(OH)_2$

# Gweithgaredd 2

Gan ddefnyddio'r cardiau a'r enghreifftiau ymarferol rydym wedi'u trafod:

- Llenwch y tabl i roi fformiwlâu'r cyfansoddion ïonig.
- Ar ôl i chi orffen, codwch eich llaw er mwyn cael gwirio eich gwaith.
- Byddwch wedyn yn 'grŵp arbenigol' ac yn gwirio fformiwlâu'r dysgwyr eraill.

**Cyfle estyn:** pa fformiwlâu ïonig eraill gallwch chi eu gwneud o'ch cardiau?

# Atebion

| Cyfansoddyn | Fformiwla |
| --- | --- |
| Magnesiwm carbonad | $MgCO_3$ |
| Arian(I) nitrad | $AgNO_3$ |
| Calsiwm bromid | $CaBr_2$ |
| Copr(II) hydrocsid | $Cu(OH)_2$ |
| Haearn(II) nitrad | $Fe(NO)_3$ |
| Haearn(III) ïodid | $FeI_3$ |
| Plwm sylffad | $PbSO_4$ |

| Cyfansoddyn | Fformiwla |
| --- | --- |
| Sinc nitrad | $Zn(NO_3)_2$ |
| Potasiwm sylffad | $K_2SO_4$ |
| Magnesiwm sylffid | MgS |
| Alwminiwm hydrocsid | $Al(OH)_3$ |
| Amoniwm clorid | $NH_4Cl$ |
| Sodiwm hydrogen carbonad | $NaHCO_3$ |
| Haearn(III) carbonad | $Fe_2(CO_3)_3$ |

# Nitrid neu nitrad?

Beth ydym yn ei wybod nawr am y gwahaniaethau rhwng magnesiwm nitrid, $Mg_3N_2$ a magnesiwm nitrad, $Mg(NO_3)_2$?

- Ysgrifennwch esboniad byr o'r gwahanol ïonau sydd yn y cyfansoddion hyn.
- Gallwch ddefnyddio diagramau fel y rhai a ddefnyddiwyd yng Ngweithgaredd 2.
- Os gwnaethoch chi feddwl am enghreifftiau eraill o 'idau' ac 'adau', gwnewch yr un peth ar gyfer y cyfansoddion hyn!



Ffynhonnell: © Trunnano



Ffynhonnell: © Shutterstock / AB-7272

Adolygu